# COFNODION PWYLLGOR Y TY

**Dyddiad**: 3 Chwefror 2005

**Amser**: 9.00am

**Lleoliad**: Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad, Bae Caerdydd

**Aelodau'n bresennol:**

Y Dirprwy Lywydd (Cadeirydd)

Lorraine Barrett, AC Llafur

Peter Black, AC Democratiaid Rhyddfrydol

William Graham, AC Ceidwadwyr

Janice Gregory, AC Llafur

Jane Hutt, AC Llafur

Owen John Thomas, AC Plaid Cymru

Y Llywydd (hefyd yn bresennol)

**Swyddogion yn bresennol:**

Paul Silk, Clerc y Cynulliad

Dianne Bevan, Dirprwy Glerc y Cynulliad a Chlerc

Pwyllgor y Ty

Gwen Parry, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfathrebu'r Cynulliad

Karin Phillips, Pennaeth Gwasanaethau Pwyllgorau ac Ymchwil yr Aelodau

Joanest Jackson, Y Cynghorydd Cyfreithiol Cynorthwyol

Wayne Cowley, Pennaeth y Swyddfa Ffioedd

Nerys Evans, Pennaeth Rheoli Swyddfeydd a Chyfleusterau

Sara Lloyd Mackay, Ysgrifenyddiaeth Pwyllgor y Ty

Mike Snook, Pennaeth y Gangen Adnoddau Dynol (rhan o'r cyfarfod)

Adrian Green, Ysgrifennydd Preifat i'r Llywydd

Gareth Brydon, Ysgrifenyddiaeth Pwyllgor y Ty

**Ymddiheuriadau**: John Bowley, Cyfarwyddwr yr Is-adran Gwasanaethau Corfforaethol

Croesawodd y Cadeirydd Jane Hutt, y Trefnydd, i'r cyfarfod fel aelod newydd o Bwyllgor y Ty.

**1 Cofnodion y cyfarfod diwethaf a materion sy'n codi**

Nododd yr Aelodau y byddai cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Rhagfyr yn cael eu cyhoeddi ar 20 Ionawr 2005. Byddai cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Ionawr yn cael eu cyhoeddi erbyn 3 Mawrth 2005.

1.1 Camau sy'n deillio o gyfarfodydd blaenorol HC(2)-01-05(p1)

Cadw Cofnodion Gweinyddol Aelodau'r Cynulliad

Nodwyd bod swyddogion wedi anfon llythyr i'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol a'u bod yn aros am ateb. Roedd gan Aelodau tan 4 Chwefror i benderfynu beth oedd orau ganddynt o ran cadw cofnodion. Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau bod yn rhaid iddynt roi gwybod i'r Swyddfa Ffioedd oni bai eu bod am i'w cofnodion gael eu dychwelyd.

## 2 Argymhellion o Gyfarfodydd yr Is-grwpiau

### 2.1 Cod Aelodau'r Cynulliad a'u Staff Cymorth ar Ddefnyddio Cyfleusterau TGCh y Cynulliad HC(2)-02-05(p2)

Gofynnwyd i'r Aelodau a oeddent yn hapus â'r Cod drafft ar ddefnyddio'r cyfleusterau TGCh. Amlinellodd y Cadeirydd ddiben y Cod, sef i sicrhau diogelwch ac uniondeb wrth i Aelodau a'u staff ddefnyddio'r offer TGCh.

Cymeradwywyd y Cod gan yr Aelodau, yn amodol ar un newid ac ar wneud y cod yn derfynol yng nghyfarfod nesaf Pwyllgor y Ty ar 3 Mawrth.

Mewn ymateb i ymholiadau oddi wrth yr Aelodau, dywedodd Gwen Parry y byddai'n rhoi gwybod iddynt ynghylch lle i ddod o hyd i'r cyfleusterau gwirio feirysau ar system Merlin.

**Camau i'w cymryd: Gwen Parry**

## 3 Adroddiadau gan Glerc y Cynulliad

### 3.1 Protocol Ymlyniad ym maes Recriwtio HC(2)-02-05(p3)

Cymeradwyodd yr Aelodau'r Protocol Ymlyniad, a luniwyd i hwyluso'r gwaith o uno ELWa, WDA a'r Bwrdd Croeso â'r Cynulliad.

Diolchodd y Cadeirydd i Michael Snook am ddod i'r cyfarfod.

### 3.2 Adolygiad y Bwrdd Adolygu Cyflogau Uwch (SSRB) HC(2)-02-05(p4)

Derbyniodd yr Aelodau'r adroddiad y Bwrdd Adolygu Cyflogau Uwch (SSRB). Mae'r papur yn nodi'r prif argymhellion ac yn tynnu sylw at y meysydd hynny lle mae angen gwneud mwy o waith. Cadarnhaodd Wayne Cowley ei fod wedi trafod y prif argymhellion mewn perthynas â chyflogau Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad â staff cymorth ac Undebau Llafur.

Bu'r Aelodau'n trafod yr adroddiad yn gyffredinol. Codwyd nifer o faterion, gan gynnwys:

- Yr amserlen weithredu;
- Cyflwyno graddfa gyflog a dyrchafiad;
- Graddfa gyflog orfodol neu'n ddewisol;
- Cyflogi staff newydd ac argymhellion y Bwrdd;
- Lwfans Cyflogau Staff;
- Terfyn arian parod, hyblygrwydd a throsglwyddo arian;
- Cynnwys EFLG ac Undebau Llafur.

Argymhellion

Gofynnodd y Cadeirydd i Bwyllgor y Ty ystyried y cynigion yn yr adroddiad yr hoffent eu cyflwyno i'r Cyfarfod Llawn i weithredu'r argymhellion. Cytunwyd ar y canlynol:

*Argymhelliad 28 (i).* Dylai cyflogau Aelodau'r Cynulliad godi i £44,000 o 1 Ebrill 2004.

**Cytuno.**

*Argymhelliad 28 (ii).* Ni ddylid newid cyflogau i ddeiliaid swyddi presennol.

**Cytuno.**

*Argymhelliad 28 (iii)*. Dylai Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio dderbyn cyflog ychwanegol o £5,507 o Ebrill 1 2004.

**Cytuno.**

*Argymhelliad 28 (iv).* Dylid diwygio Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru gan gynyddu'r gyfradd groniadau i 1/40 o 1 Ebrill 2004 gyda'r Aelodau hynny sydd yn dewis bod yn rhan o'r trefniant hwn yn cyfrannu 10% o'r dyddiad hwnnw.

**Cytuno.**

*Argymhelliad 28 (v).* Bydd pob Aelod yn symud yn awtomatig i'r gyfradd groniadau 1/40 gyda'r Aelod yn cyfrannu 10% o 1 Ebrill 2005 a byddai ganddo 3 mis i ddewis tynnu allan o'r cynllun.

**Cytuno.**

*Argymhelliad 28(vi).* Ar gyfer Aelodau newydd fydd yn cael eu hethol yn y dyfodol y gyfradd groniadau fydd 1/40 gyda'r Aelod yn cyfrannu 10% ond byddai ganddo gyfnod o 3 mis o ddyddiad yr etholiad i ddewis cyfradd groniadau 1/50 gyda'r Aelod yn cyfrannu 6%.

**Cytuno.**

*Argymhelliad 28 (vii).* Dylid adolygu'r disgrifiadau swydd safonol ar gyfer staff cymorth gan ymgynghori â'r Grwp Cyswllt, Cyfarpar a Chyfleusterau a chynrychiolwyr o undebau llafur staff cymorth.

**Cytuno.**

*Argymhelliad 28 (viii).* Dylid cynyddu Lwfans Cyflogau Staff ar 1 Ebrill bob blwyddyn (gan ddechrau ar 1 Ebrill 2005) yn unol â'r newidiadau yn y Mynegai Cyflog Cyfartalog ar gyfer y sector cyhoeddus a phreifat ar y cyd.

**Cytuno.**

*Argymhelliad 28 (ix).* Yn amodol ar farn Pwyllgor y Ty, dylid cynnal trafodaethau gyda'r Grwp Cyswllt, Cyfarpar a Chyfleusterau a chynrychiolwyr o undebau llafur staff cymorth ar gyflogau a materion cysylltiedig.

**Cytuno.**

*Argymhelliad 28* (x). Dylid cynyddu Lwfans Costau Swyddfa i £13,000 o 1 Ebrill 2005, gan gynnwys codiadau blynyddol o'r dyddiad hwnnw.

**Cytuno.**

*Argymhelliad 28 (xi).* Dylai swm ychwanegol fod ar gael yn ganolog i ariannu unrhyw wariant rhesymol dros £2,000 y mae'n rhaid i Aelodau'r Cynulliad eu hysgwyddo i sicrhau bod eu swyddfeydd yn yr etholaethau yn bodloni'r gofynion o ran mynediad i bobl anabl ac iechyd a diogelwch.

**Cytuno.**

*Argymhelliad 28* (xii). Ni fydd y Lwfans Costau Ychwanegol yn cael ei newid ar wahân i'r codiadau blynyddol arferol.

**Cytuno. Cytunodd yr Aelodau hefyd y dylid cadw'r terfyn ar gyfer cael caniatâd cyn prynu eitemau unigol o £1,000 i £2,000.**

*Argymhelliad 28 (xiii).* Dylai'r gyfradd fesul milltir mewn car gydymffurfio â'r gyfradd sydd wedi'i chymeradwyo gan Gyllid y Wlad sef 40 ceiniog y filltir am y 10,000 milltir cyntaf, a 25 ceiniog y filltir wedi hynny.

**Cytuno.**

*Argymhelliad 28 (xiv).* Dylai'r gyfradd fesul milltir ar feic modur

gydymffurfio â'r gyfradd sydd wedi'i chymeradwyo gan Gyllid y Wlad, sef 24 ceiniog y filltir.

**Cytuno.**

*Argymhelliad 28 (xv).* Dylai'r gyfradd fesul milltir ar feic gydymffurfio â'r gyfradd sydd wedi'i chymeradwyo gan Gyllid y Wlad, sef 20 ceiniog y filltir.

**Cytuno.**

*Argymhelliad 28 (xvi).* Dylai'r cyfraddau ar gyfer ceir, beiciau modur a beiciau yn y dyfodol gydymffurfio â'r cyfraddau a gymeradwyir gan Gyllid y Wlad.

**Cytuno.**

*Argymhelliad 28 (xvii).* Dylai Aelodau allu hawlio costau am hyd at 18 taith a wnaed gan eu staff cymorth yn ôl a blaen rhwng Caerdydd a'u hetholaeth.

**Cytuno.**

*Argymhelliad 28* (*xviii*). Dylid adolygu'r Grant Adsefydlu yr un pryd ag y bydd yr un trefniadau'n cael eu hadolygu yn San Steffan.

**Penderfynodd Pwyllgor y Ty na fyddai unrhyw gamau'n cael eu cymryd ynghylch y Grant Adsefydlu.**

*Argymhelliad 28 (xix).* Ni fydd y Lwfans Dirwyn i Ben yn cael ei newid.

**Cytuno.**

*Argymhelliad 28* (xx). Dylid adolygu'r diffiniad o 'prif gartref'.

**Penderfynodd Pwyllgor y Ty y dylid newid y diffiniad i :**

*"Y cartref a gofrestrwyd gan yr Aelod yn y Swyddfa Ffioedd. Y cartref arferol fydd hwn lle y mae'r Aelod yn treulio'r rhan fwyaf o'i (h)amser ac yn talu Treth y Cyngor yn llawn arno.*

*Argymhellion 28 (xxi).* Dylai'r gwaith o ailbrisio lwfansau, ar wahân i'r rheini sydd â mecanwaith ailbrisio arall, fod yn seiliedig ar y Mynegai Prisiau Adwerthu ar gyfer y 12 mis a ddaeth i ben y Rhagfyr blaenorol. Pe cytunir ailbrisio'r Lwfans Cyflogau Staff a'r raddfa gyflog yn unol â'r Mynegai Enillion Cyfartalog, dylai hyn hefyd fod yn seiliedig ar y 12 mis a ddaeth i ben yn Rhagfyr.

**Cytuno.**

*Argymhelliad 29.* Gofynnir i Bwyllgor y Ty gytuno i ofyn i'r Pwyllgor Busnes drefnu dadl ar y cynigion cyn 12 Mawrth 2005 (bydd angen i aelod o'r Pwyllgor Busnes gynnig newid y Rheolau Sefydlog).

**Cytuno.**

Penderfynodd Pwyllgor y Ty hefyd ar y canlynol:

*Argymhelliad 30 (i).* Penderfynu ar y dewisiadau o ran y Dirprwy Weinidogion.

**Cytunodd yr Aelodau i sefydlu gweithgor ar y posibilrwydd o roi tâl ychwanegol i'r Dirprwy Weinidogion.**

*Argymhelliad 30 (ii).* Penderfynu p'un a ddylai Arweinwyr y Gwrthbleidiau (ar wahân i Arweinydd y Blaid Fwyaf nad yw'n cael ei chynrychioli yng Nghabinet y Cynulliad) dderbyn cyflog ychwanegol.

**Cytunodd Aelodau i sefydlu gweithgor.**

*Argymhelliad 30(iii).*Penderfynu a ddylid derbyn neu newid argymhelliad y Bwrdd o ran Lwfans Cyflogau Staff.

**Gofynnodd yr Aelodau i Wayne Cowley ystyried ffurf derfynol Lwfans Cyflogau Staff ymhellach ac adrodd ar hyn.**

*Argymhelliad 30 (iv).* Penderfynu a fyddai staff cymorth yn cael eu dyrchafu'n awtomatig neu ai'r Aelod Cynulliad sy'n eu cyflogi fydd yn penderfynu ynghylch dyrchafu staff.

**Gofynnodd yr Aelodau i Wayne Cowley ystyried ffurf derfynol Lwfans Cyflogau Staff ymhellach.**

*Argymhelliad 30 (v).* Canllawiau polisi ar gyfer Aelodau Cynulliad ynghylch tâl a materion eraill ym maes adnoddau dynol.

**Gofynnodd yr Aelodau i Wayne Cowley baratoi canllawiau polisi ar gyfer Aelodau Cynulliad ar dâl a materion eraill ym maes adnoddau dynol.**

*Argymhelliad 30(vi).* Penderfynu p'un a ddylai costau glanhawyr a gyflogir yn uniongyrchol ddod o dan y Lwfans Costau Swyddfa yn hytrach na Chyflogau Staff.

**Cytunodd yr Aelodau y dylai costau glanhawyr a gyflogir yn uniongyrchol ddod o'r Lwfans Costau Swyddfa yn hytrach na Chyflogau Staff.**

*Argymhelliad 30 (vii).* Penderfynu sut y byddai trosglwyddiad yn gweithio pe bai'r Lwfans Cyflogau Staff yn cael ei ailstrwythuro.

**Gofynnodd yr Aelodau i Wayne Cowley ystyried ffurf derfynol hyn ac i roi adroddiad pellach iddynt.**

*Argymhelliad 30 (viii).* Penderfynu ar y dystiolaeth sydd ei hangen i gefnogi cais gan Aelodau am arian canolog ar gyfer gwaith angenrheidiol i sicrhau bod eu swyddfeydd yn bodloni'r gofynion ar gyfer mynediad i bobl anabl ac iechyd a diogelwch.

**Cytunodd yr Aelodau y dylid cael tri dyfynbris ysgrifenedig ar gyfer y gwaith a argymhellir cyn i'r gwaith gael ei wneud ac y dylai'r rhain gael eu cyflwyno i'r Swyddfa Ffioedd i'w cymeradwyo.**

*Argymhelliad 30 (ix).* Penderfynu p'un a fydd angen i'r Aelodau ddod o hyd i'r £2,000 cyntaf ar gyfer cais yn ymwneud â diogelwch swyddfa yn ogystal â'r cais yn ymwneud â mynediad i bobl anabl/ iechyd a diogelwch mewn unrhyw flwyddyn ariannol neu a ddylent wneud un cyfraniad o £2,000 ar gyfer y ddau gais.

**Cytunodd yr Aelodau pe bai gwaith yn cael ei wneud mewn swyddfa yn gysylltiedig â diogelwch, mynediad i bobl anabl ac iechyd a diogelwch, dim ond y £2,000 cyntaf o gyfanswm y gwariant y byddai'n rhaid ei dalu o'r lwfans costau swyddfa.**

*Argymhelliad 30 (xi).* Penderfynu sut y gellir ailstrwythuro Lwfans Arweinwyr Pleidiau i adlewyrchu'r newidiadau arfaethedig i'r Lwfans Cyflogau Staff.

**Gofynnodd yr Aelodau i Wayne Cowley ystyried ymhellach y gwaith o ailstrwythuro Lwfans Arweinwyr y Pleidiau a rhoi adroddiad pellach i Bwyllgor y Ty.**

*Argymhelliad 30 (xii).* Newidiadau y gellid eu gwneud i'r rheolau ar gyfer y Lwfans Staff Dros Dro i ganiatau i staff ddychwelyd i'r gwaith fesul cam ar ôl bod yn absennol oherwydd salwch.

**Gofynnodd yr Aelodau i Wayne Cowley ystyried cynllun ar gyfer caniatau i staff ddychwelyd i'r gwaith fesul cam ar ôl bod yn absennol oherwydd salwch.**

**Camau i'w cymryd: Wayne Cowley**

3.3 Materion Hollti - HC(2)-02-05(p5)

Cadarnhaodd yr Aelodau y byddant yn ymgynghori ar y cynigion ynghylch hollti'r Weinyddiaeth a changhennau deddfwriaethol y Cynulliad â grwpiau'r pleidiau.

3.4 Adolygu Digwyddiadau'n ymwneud â Diogelwch yn y Cynulliad Cenedlaethol, Bae Caerdydd, 28 Tachwedd a 2 Rhagfyr 2004 -HC(2)-02-05(p6)

Cytunodd yr Aelodau ar y mesurau cost isel angenrheidiol i atal unigolion rhag dringo'r strwythur yn yr atriwm. Dywedodd Pwyllgor y Ty yr hoffai ddiolch i'r staff diogelwch am ymateb mor brydlon i'r digwyddiad diweddar. Dywedodd Paul Silk fod swyddogion yn drafftio protocol ynghylch ffilmio yn adeilad y Cynulliad. Yn sgil y digwyddiad, mae'r Cadeirydd wedi gofyn i lythyr gael ei anfon i S4C ynghylch cydymffurfio â'r safonau darlledu.

**Camau i'w cymryd: Paul Silk/Dianne Bevan**

## 4 Cyfleusterau'r Aelodau

### 4.1 Safleoedd ar wahân ar gyfer y Rhyngrwyd a'r Fewnrwyd - HC(2)-02-05(p7)

Croesawodd yr Aelodau'r cynnig arfaethedig i greu gwefan ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru a fyddai ar wahân i wefan y Llywodraeth. Gofynnodd yr Aelodau i swyddogion nodi faint fyddai hyn yn ei gostio ac i adrodd yn ôl i'r Pwyllgor. Gofynnodd yr Aelodau i swyddogion brynu URLau posibl y gellid eu dewis ar gyfer cyfeiriad y wefan. Bydd rhestr yn cael ei dosbarthu i Aelodau.

**Camau i'w cymryd: Gwen Parry**

### 4.2 Lansio a Gwerthu Llyfrau yn y Neuadd HC(2)-02-05(p8)

Roedd yr Aelodau'n cymeradwyo'r canllawiau ar lansio a gwerthu llyfrau yn Neuadd y Cynulliad.

## 5 Adeiladau

### 5.1 Mân Waith Newydd HC(2)-02-05(p9)

Nododd yr Aelodau y tendrau ar gyfer to'r Pierhead a gwaith allanol a chadarnhaodd fod y gost a oedd yn uwch na'r amcangyfrif yn dderbyniol. Cadarnhaodd Nerys Evans fod y tendrau wedi'u derbyn oddi wrth gwmnïau lleol.

5.2 Y Dewisiadau o ran y Lle Gwag yn Adeilad y Cynulliad HC(2)-02-05(p10)

Gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelodau i ystyried sut i ddefnyddio'r lle gwag yn Adeilad y Cynulliad pan fydd y cyfleusterau cyfredol yn cael eu symud i Adeilad Newydd y Cynulliad. Gofynnodd y Cadeirydd i Aelodau gyfleu'u sylwadau i Dianne Bevan. Bu'r Aelodau'n trafod y posibilrwydd o sefydlu creche yn yr adeilad. Dywedodd Jane Hutt y byddai'n falch o helpu gyda'r gwaith o ddatblygu opsiynau ar gyfer y cynnig hwn.

## 6 Eitemau i'w Nodi

6.1 Cyfarfod yr Is-grwp TGCh, 30 Tachwedd 2004 - HC(2)-02-05(p11)

Cymeradwyodd yr Aelodau gofnodion y cyfarfod.

Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi derbyn cais gan Gadeirydd yr Is-grwp TGCh i drafod perfformiad contract Merlin â Phwyllgor y Ty. Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi awgrymu y dylid trefnu cyfarfod arbennig gyda Chadeirydd yr Is-grwp a chynrychiolydd/chynrychiolwyr Merlin i drafod y materion. Cododd yr Aelodau faterion eraill yn ymwneud â TGCh, gan gynnwys dulliau o gysylltu camerâu digidol, argraffu ar ddwy ochr tudalennau ac osgoi gwastraff wrth argraffu.

**Camau i'w cymryd: Dianne Bevan**

6.2 Cyfarfod yr Is-grwp Arlwyo, 20 Ionawr 2005 – HC(2)-02-05(p12)

Cymeradwyodd yr Aelodau gofnodion y cyfarfod.

Dywedodd yr Aelodau eu bod wedi derbyn nifer o anfonebau hwyr am daliadau oddi wrth yr arlwywyr. Dywedodd Nerys Evans y byddai'n trefnu i Gadeirydd yr Is-grwp Arlwyo a Janice Gregory, a oedd yn aelod o'r bwrdd tendro'r contract arlwyo, i gwrdd â rheolwyr rhanbarthol Avenance i drafod y materion cyfredol yn ymwneud ag arlwyo.

**Camau i'w cymryd: Nerys Evans**

6.3 Papur ar Berfformiad o'i gymharu â Thargedau

Nododd yr Aelodau'r papur.

6.4 Adroddiad Cyllid - HC(2)-02-05(p14)

Nododd yr Aelodau'r adroddiad cyllid.

6.5 Gweithgareddau Cysylltiadau Tramor ac Allanol - HC(2)-02-05(p15)

Nododd yr Aelodau'r wybodaeth ddiweddaraf.

6.6 Adroddiad ar Swyddfa Gogledd Cymru – HC(2)-02-05(p16)

Nododd yr Aelodau fod y cynllun i gynnig cymhorthdal i ysgolion a cholegau sy'n ymweld â'r ganolfan ymwelwyr ac sydd dros 10 milltir i ffwrdd wedi'i roi ar waith. Nododd yr Aelodau nifer y bobl a fu'n ymweld â'r ganolfan a nifer yr ymweliadau a'r digwyddiadau a drefnwyd gan y Swyddog Addysg.

**7 Materion a gyfeiriwyd gan gynnwys Cwestiynau'r Cynulliad**

7.1 Cofnod y Trafodion 26 Ionawr 2005 – HC(2)-02-05(p17)

Nododd yr Aelodau'r ddadl ar Adroddiad Blynyddol Pwyllgor y Ty, a ddyfynnwyd o Gofnod y Trafodion.

WAQ40878, WAQ40877, WAQ40879, WAQ40880, WAQ40890 a WAQ40854

7.2 Nododd yr Aelodau fod yr atebion i Gwestiynau'r Cynulliad wedi'u dosbarthu iddynt.

OAQ0001(HC)

Nododd yr Aelodau y byddai'r ateb a gyflwynwyd ar 2 Chwefror yn cael ei ddosbarthu iddynt.

**Unrhyw Fater Arall**

Rheolau Caffael – HC(2)-02-05(p18.1)

7.3 Gofynnodd y Cadeirydd i Bwyllgor y Ty gymeradwyo'r newidiadau o ran arferion caffael i adlewyrchu'r rheini a gyflwynwyd gan y Llywodraeth. Cytunodd yr Aelodau y dylid llunio canllawiau caffael ar gyfer GSC yn unol â'r newidiadau diweddar a gyflwynwyd gan y Llywodraeth.

**Camau i'w cymryd: Wayne Cowley**

**8** Mynd i'r Afael â Cheisiadau am Wybodaeth - (HC(2)-02-05(p19)

8.1 Gwahoddodd Paul Silk sylwadau ar gynnig i sefydlu mecanwaith ymgynghori priodol â Phwyllgor y Ty cyn rhyddhau gwybodaeth. Cytunodd yr Aelodau y byddent yn cyfarfod pan fyddai'n gyfleus i drafod y cais. Os na, byddai'n rhaid ymgynghori â'r Llywydd a'r Dirprwy Lywydd cyn cyflwyno ymateb ffurfiol. Gofynnodd yr Aelodau am grynodeb mewn cyfarfodydd o'r ceisiadau a dderbyniwyd.

**Camau i'w cymryd: Joanest Jackson**

Staff Glanhau

Gofynnodd y Cadeirydd i Dianne Bevan ymchwilio i lefelau cyflog a threfniadau pensiwn ar gyfer staff glanhau yn Adeilad y Cynulliad ac adrodd yn ôl iddo.

**Camau i'w cymryd: Dianne Bevan**

8.2 Fan yr Heddlu

Gofynnodd y Cadeirydd i'r Clerc/Dirprwy Glerc benderfynu ar y sefyllfa ynghylch y cais am fan newydd i'r heddlu.

**Camau i'w cymryd: Dianne Bevan**

8.3

8.4

**Dyddiad y cyfarfod nesaf:** 3 Mawrth 2005

**Ysgrifenyddiaeth Pwyllgor y Ty**